***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 848

# Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Darpariaethau Canlyniadol) 2015

## RHAN 2

### Addasu darpariaethau contractio allan

**Cymhwyso'r Rhan hon**

**3.** Mae'r Rhan hon yn gymwys—

(a) pan wneir dewisiad o dan adran 11 (dewisiadau ynghylch cyflogaethau sydd wedi eu cynnwys o dan dystysgrifau contractio allan) o Ddeddf 1993(**1**) mewn perthynas â phersonau sy'n dod yn aelodau o'r cynllun newydd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2015 a chyn 6 Ebrill 2016 (pa un ai bod unrhyw un neu ragor o'r personau hynny yn aelodau o hen gynllun ai peidio); a

(b) pan fo'r cynllun newydd yn bodloni gofynion adran 9 (gofynion o ran ardystio cynlluniau: cyffredinol) o Ddeddf 1993(**2**).

(**1**) Diwygiwyd adran 11 gan adran 1(1) o Ddeddf Cyfraniadau Nawdd Cymdeithasol (Trosglwyddo Swyddogaethau etc.) 1999 (p. 2) a pharagraff 37 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno, a chan adran 1(2)(a) o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth (Datrys Anghydfodau) 1998 (p. 8). Fe'i diddymir yn rhagolygol gan adran 24 o Ddeddf Pensiynau 2014 (p. 19) a pharagraff 9 o Atodlen 13 i'r Ddeddf honno.

(**2**) Diwygiwyd adran 9 gan adrannau 136(3) ac 151 o Ddeddf Pensiynau 1995 (p. 26) a pharagraff 21 o Atodlen 5 i'r Ddeddf honno; gan adran 1(1) o Ddeddf Cyfraniadau Nawdd Cymdeithasol (Trosglwyddo Swyddogaethau etc.) 1999 (p. 2) a pharagraff 35 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno; gan adran 283 o Ddeddf Pensiynau 2004 (p. 35); gan adrannau 14(4), 15(3) a 27(2) o Ddeddf Pensiynau 2007 (p. 22) a pharagraffau 61 i 67 o Atodlen 4 a pharagraff 1 o Ran 6 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno; a chan O.S. 2006/745. Fe'i diddymir yn rhagolygol gan adran 24 o Ddeddf Pensiynau 2014 (p. 19) a pharagraff 9 o Atodlen 13 i'r Ddeddf honno.